

GRANT CYDWEITHIO AR GYFER GOFAL CANSER GWELL PECYN GWYBODAETH

Medi 2026



Croeso

Ar draws y Deyrnas Unedig, mae gwasanaethau iechyd a gofal, cynghorau, sefydliadau cymunedol a phobl yr effeithir arnynt gan ganser yn cydweithio i wella gofal yn eu hardal leol. Ond hyd yn oed pan fydd partneriaid yn gwybod beth sydd angen newid, gall dod o hyd i'r cyllid i roi syniadau ar waith fod yn anodd.

Yn Macmillan, gwyddom na all unrhyw sefydliad unigol ddiwallu holl anghenion pobl yr effeithir arnynt gan ganser. Drwy gydweithio, gall partneriaid ddarparu gofal mwy cydgysylltiedig a gwneud defnydd gwell o arbenigedd lleol.

Dyna pam rydym yn falch o lansio'r Grant Cydweithio ar gyfer Gofal Canser Gwell i gefnogi partneriaethau dan arweiniad lleol i roi syniadau ar waith, profi beth sy'n gweithio a helpu creu gofal cancer mwy cydgysylltiedig yn nes at adref.

[Ewch i dudalen we Grant Cydweithio Macmillan ar gyfer Gofal Canser Gwell](#)

Pwy yw Macmillan?

Mae Cymorth Cancer Macmillan wedi treulio mwy na 100 mlynedd yn helpu pobl sy'n byw gyda chanser. Gwyddom y gall cancer amharu ar eich bywyd cyfan. A gall gael ei waethygu oherwydd pwy ydych chi a ble rydych chi'n byw.

Ond rydyn ni yma i newid hynny.

Mae nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser yn cynyddu, ac mae angen y cymorth gorau ar bob un ohonynt i ddiwallu eu hanghenion unigryw. Dyna pam y byddwn yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i helpu pawb sy'n byw gyda chanser ledled y Deyrnas Unedig i gael y cymorth sydd ei angen arnynt ar hyn o bryd a thrawsnewid gofal cancer i bawb a fydd yn cael diagnosis yn y dyfodol

Darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth am y canlynol

- Trosolwg o'r Grant Cydweithio ar gyfer Gofal Cancer Gwell
- Beth fydd y grant hwn yn ei ariannu
- Effaith y gall y grant hwn ei chael
- Cyllid sydd ar gael
- Y broses ymgeisio a'r amserlen
- Meini prawf cymhwysedd
- Sut i gofrestru eich Diddordeb
- Cymorth hygyrchedd
- Mentrau darluniadol

Beth yw'r Grant Cydweithio ar gyfer Gofal Cancer Gwell?

- Grant Cydweithio Macmillan ar gyfer Gofal Cancer Gwell yw ein cyllid cyntaf o'i fath sy'n cefnogi sefydliadau iechyd y sector cyhoeddus, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol i gydweithio i weithredu mentrau a allai chwyldroi gofal cancer yn lleol.
- Drwy gyllid hyblyg a dysgu ar y cyd, bydd y grant hwn yn cefnogi partneriaethau lleol i roi syniadau ar waith, profi beth sy'n gweithio a meithrin dealltwriaeth o sut y gallwn greu gofal cancer mwy cydgysylltiedig yn agosach at adref.
- Gan gefnogi uchelgeisiau lechyd Cymdogaeth Macmillan, bydd y grant hwn yn cefnogi dulliau lleol sy'n anelu at wneud gofal cancer yn haws i'w lywio a phrofi sut y gall cyllid hyblyg a chydweithio cryfach wneud i hyn ddigwydd.
- Bydd cyllid hyblyg yn cefnogi partneriaethau lleol i gynnig dulliau sy'n seiliedig ar eu hanghenion gofal cancer lleol. Yn hytrach na mynnu bod pob partneriaeth yn darparu'r un ateb rhagnodedig, gall sefydliadau ddylunio ac addasu dulliau o amgylch blaenoriaethau, cyfleoedd a heriau lleol, a lle maen nhw'n credu y gall y cyllid wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Mae'r grant ar agor i sefydliadau a phartneriaethau cymwys ledled y Deyrnas Unedig ac Ynys Manaw.

Beth fydd y Grant Cydweithio ar gyfer Gofal Cancer Gwell yn ei ariannu?

- **Sefydliadau'n cydweithio i fynd i'r afael â her gofal cancer lleol** - Mae'r Grant Cydweithio ar gyfer Gofal Cancer Gwell yn darparu cyllid hyblyg ar gyfer partneriaethau lleol i fynd i'r afael â heriau gofal cancer yn eu cymunedau, gan ddod â gwasanaethau iechyd a gofal, sefydliadau cymunedol a phobl â phrofiad bywyd ynghyd i weithio gyda'i gilydd o amgylch y nodau cyffredin hyn.
- **Partneriaethau sy'n rhoi syniad datblygedig ar waith** - Bydd y Grant yn cefnogi partneriaethau lleol sefydledig gyda mentrau parod i'w profi ac yn gweithredu dulliau sy'n adlewyrchu anghenion lleol, yn cryfhau cydweithio ac yn y pen draw yn gwneud gofal cancer yn fwy cydgysylltiedig ac yn haws i'w lywio i bobl yr effeithir arnynt gan ganser.
- **Cymunedau lleol a phobl â phrofiad bywyd yn helpu llunio'r ateb** - Dylai pobl â phrofiad bywyd a chymunedau lleol chwarae rhan ystyrlon wrth lunio'r gofal cancer maen nhw'n ei dderbyn. Bydd y Grant yn cefnogi partneriaethau i brofi a gweithredu atebion gyda chymunedau, gyda ffocws penodol ar bobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i ofal cancer.
- **Partneriaethau'n profi, yn dysgu ac yn rhannu'r hyn maen nhw'n ei ddarganfod** - Bydd y grant hwn yn helpu meithrin dealltwriaeth o amodau ar gyfer newid mewn gofal cancer a'r hyn sy'n gwneud partneriaethau lleol yn llwyddiannus. Mae'r Grant Cydweithio ar gyfer Gofal Cancer Gwell yn rhoi cyfle i sefydliadau ailadrodd ac addasu eu dulliau, gan gynhyrchu dysgu a all helpu llunio buddsoddi yn y dyfodol mewn systemau gofal cancer lleol.

Beth ydym ni'n gobeithio y bydd y grant yn ei gyflawni?

Yn ystod y tair blynedd nesaf, mae'r grant yn anelu at gefnogi:


- Sefydliadau lleol yn cydweithio'n fwy effeithiol ar ofal cancer.
- Gwneud gofal cancer yn fwy cydgysylltiedig ac yn haws i'w lywio.
- Sicrhau bod atebion gofal cancer yn cael eu llunio gan gymunedau lleol a phrofiad bywyd.
- Gwellu gofal a chefnogaeth cancer i bobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf.
- Meithrin ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n helpu partneriaethau lleol i lwyddo a'r amodau ar gyfer newid mewn gofal cancer.

Bydd y mewnwelediadau a'r cysylltiadau a ddatblygir drwy'r Grant Cydweithio ar gyfer Gofal Cancer Gwell yn helpu llywio buddsoddiadau yn y dyfodol, gan gynnwys fersiynau pellach o'r rhaglen grant hon i greu gofal cancer mwy cydgysylltiedig yn nes at adref.

Trosolwg o'r Grant

- **Swm y cyllid:** Rydym yn cynnig grantiau rhwng **£100,000 a £500,000 ar gyfer y fenter** i gefnogi partneriaid i droi syniadau yn weithredu, gan wneud gofal canser yn fwy cydgysylltiedig, yn haws i'w lywio ac yn agosach at adref.
- Disgwylir i ymgeiswyr gynllunio ar gyfer gwerthuso er mwyn deall y gwahaniaeth y mae eu menter yn ei wneud a'r hyn maen nhw'n ei ddysgu ar hyd y ffordd. Mae cyllid ar gyfer gwerthuso ar gael drwy'r rhaglen grantiau, **gyda hyd at 10% o gost y fenter (uchafswm o £50,000) i gefnogi'r gweithgareddau hyn.**
- **Hyd:** Bydd cyllid ar gael ar gyfer mentrau sy'n parhau rhwng **un a thair blynedd.**
- **Lleoliad:** Ar agor i sefydliadau a phartneriaethau cymwys ledled y Deyrnas Unedig ac Ynys Manaw.

Beth yw'r amserlen Mynegi Diddordeb?



Ar gipolwg

TUDALEN WE Y GRANT YN FYW

Gwybodaeth am bwrpas, amcan a meini prawf cymhwysedd y grant

2026
1 Medi



MYNEGI DIDDORDEB AR AGOR

Mae Mynegi Diddordeb yn mynd yn fyw i ymgeiswyr gofrestru eu diddordeb.

2026
7 Medi



MYNEGI DIDDORDEB YN CAU

Mynegi Diddordeb yn cau*


2026
20 Medi



CANLYNIAD MYNEGI DIDDORDEB

Mae ymgeiswyr yn gwybod a ydynt wedi cyrraedd Cam-2 er bod y dyddiad hwn i'w gadarnhau eto.

2026
Wythnos yn dechrau 28 Medi



FFENESTR YMGEISIO LAWN

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gwblhau cais llawn

2026
5 Hydref i 2 Tachwedd



*Efallai y byddwn yn cau'r ffurflen Mynegi Diddordeb yn gynnar os byddwn yn derbyn nifer uchel iawn o geisiadau

Pa sefydliadau all wneud cais?

Rhaid i'r sefydliad cynnal sy'n gwneud cais am y grant fod yn un o'r canlynol:

- Sefydliad gwirfoddol, cymunedol, ffydd neu fenter gymdeithasol (VCFSE) sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys:
 - Elusennau cofrestredig
 - Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
 - Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC)
 - Cwmni wedi ei Gyfyngu trwy Warrant
 - Sefydliad Seiliedig ar Ffydd
- Sefydliadau iechyd y sector cyhoeddus fel cyrff y GIG yn Lloegr, Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru, Byrddau GIG yr Alban, ac Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) yng Ngogledd Iwerddon, Rhwydweithiau Canser, Cynghreiriau Canser, Byrddau Tiriogaethol y GIG, Byrddau Integreiddio ar y Cyd, Rhwydweithiau Clinigol a Reolir, Byrddau Gofal Integredig
- Awdurdodau Lleol neu gorff llywodraeth leol
- Sefydliad cymwys arall sy'n ymwneud â darparu cymorth iechyd, gofal neu gymunedol.

Pa sefydliadau na all wneud cais?

Sefydliadau Cynnal na all wneud cais am y grant yw:

- Grwpiau cymorth anffurfiol heb strwythur cyfreithiol (Grwpiau anghorfforedig)
- Elusennau heb eu cofrestru, Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIOs) neu Gwmnïau Buddiant Cymunedol (CICs)
- Prifysgolion a Cholegau Addysg Uwch
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol unigol
- Busnesau masnachol a masnachwyr unigol
- Sefydliadau heb fenter dan arweiniad partneriaeth.
- Cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus.

Beth yw'r Meini Prawf Cymhwysedd ar gyfer Mynegi Diddordeb? Cyn i chi wneud cais, gwiriwch fod:

- Eich sefydliad yn gymwys ar gyfer y grant ac yn gorff cofrestredig yn y Deyrnas Unedig.
- Mae gan y sefydliad cynnal incwm cyfrifon cyfredol, cyhoeddedig sy'n uwch na 50% o gyfanswm y grant y gofynnir amdano. Bydd y Sefydliad Cynnal yn gyfrifol am gynnal diwydrwydd dyladwy ariannol priodol ac asesiad risg o bob partner is-grant.
- Rhaid i'r sefydliad cynnal gael cronfeydd wrth gefn rhydd o 3 mis neu fwy.
- Mae'r cyllid hwn tuag at brosiect newydd neu esblygiad o syniad sy'n bodoli eisoes.
- Mae'r arian a ofynnir amdano yn talu 100% o gyfanswm cost disgwylledig y fenter am hyd cyfnod y grant ac ni fydd angen cyllid trydydd parti arnoch yn ystod y cyfnod grant.
- Mae gan y Sefydliad Cynnal fynediad at brosesau rheoli ariannol, llywodraethu a sicrwydd priodol i reoli'r grant hwn yn gyfrifol, neu bydd ganddo fynediad atynt.
- Mae'r Sefydliad Cynnal wedi nodi o leiaf un partner (o leiaf un sefydliad gwirfoddol, cymunedol, ffydd neu fenter gymdeithasol) sydd wedi cytuno i gydweithio'n weithredol wrth ddatblygu a chyflawni'r prosiect arfaethedig.
- Mae'r fenter arfaethedig yn osgoi'r holl weithgareddau a restrir fel rhai anghymwys yma: gweithgarwch gwleidyddol; hyrwyddo crefydd neu addoliad crefyddol; gweithgareddau lle mae'r prif bwrpas yn ymchwil academiaidd; rhoi grantiau i drydydd partïon; cyllid ôl-weithredol; gweithgareddau statudol
- Nid ydych chi'n ceisio cyllid ar gyfer menter na gweithgareddau sy'n efelychu, yn dyblygu neu'n adlewyrchu menter sy'n cael ei hariannu ar hyn o bryd gan Macmillan neu sydd wedi cael ei hariannu o fewn y 12 mis diwethaf. Gall sefydliadau ddal mwy nag un grant Macmillan, ar yr amod bod pob grant yn cefnogi menter ar wahân ac unigryw.

Pan fyddwn yn asesu Mynegi Diddordeb, byddwn yn edrych ar bum peth:

- **Angen Lleol** - Asesu a yw'r cais yn cyflwyno angen clir, lleol am ofal canser, wedi'i ategu gan dystiolaeth berthnasol ac yn dangos pam mae angen ymateb partneriaeth.
- **Dull Arfaethedig** - Asesu a yw'r dull arfaethedig yn ymateb rhesymegol i'r angen a nodwyd ac a yw wedi'i lunio gan wybodaeth leol, mewnwelediad cymunedol a phrofiad byw.
- **Partneriaeth** - Asesu a yw'r cynnig yn dangos gwaith partneriaeth ddilys, gyda'r holl bartneriaid yn cydweithio'n weithredol ac yn ychwanegu gwerth penodol.
- **Effaith Arfaethedig** - Asesu a yw'r cynnig yn egluro'n glir y gwahaniaeth y mae'n gobeithio ei wneud a sut y bydd pobl sy'n profi'r rhwystrau mwyaf yn helpu i lunio'r newid hwnnw.
- **Dysgu** - Asesu a yw'r cynnig yn dangos ymrwymiad clir i brofi, dysgu a rhannu mewnwelediadau a allai wella gofal canser yn y dyfodol.

% Pwysoli ardaloedd asesu	
Angen Lleol	25%
Dull Arfaethedig	20%
Partneriaeth	25%
Effaith Arfaethedig	20%
Dysgu	10%

Sut i gofrestru eich diddordeb?

- Mae Mynegi Diddordeb yn agor o **09:00 BST ar 7 Medi 2026** hyd **23:59 BST ar 20 Medi 2026**.
- Cyn gwneud cais:
 - ✓ Darllenwch y Pecyn Gwybodaeth hwn.
 - ✓ Gwiriwch fod eich sefydliad a'ch partneriaeth yn gymwys.
 - ✓ [Lawrlwythwch fersiwn Word o'r ffurflen i baratoi eich atebion.](#)
 - ✓ [Cyflwynwch eich atebion drwy'r ffurflen Mynegi Diddordeb ar-lein.](#)
 - ✓ Bydd ymgeiswyr yn gwybod a ydynt wedi cyrraedd y cam ymgeisio llawn yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 28 Medi 2026.

Rydym yn disgwyl derbyn mwy o geisiadau nag y gallwn eu hariannu, felly rydym yn eich annog i wneud cais cyn gynted â phosibl. Efallai y byddwn yn cau'r ffurflen Mynegi Diddordeb yn gynnar os byddwn yn derbyn nifer uchel iawn o geisiadau.

Beth yw'r broses ymgeisio dwy gam?

I. Cam 1: Mynegi Diddordeb:

- Byddwn yn asesu eich Datganiad o Ddiddordeb yn erbyn y meini prawf cymhwysedd ac asesu cyhoeddedig.
- Gwahoddir ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer i gyflwyno cais llawn.

II. Cam 2: Cais llawn:

- Byddwn yn asesu ceisiadau llawn a gwybodaeth ategol yn erbyn y meini prawf cyhoeddedig.
- Yna bydd panel penderfynu yn dewis y mentrau a fydd yn derbyn cyllid.

Angen help gyda'ch cais?

Os oes angen help arnoch i lenwi eich Datganiad o Ddiddordeb, neu os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni yn: BetterCancerCareTeam@macmillan.org.uk

Cysylltwch â ni

Os oes gennych gwestiwn am y grant neu'r broses ymgeisio am y Grant Cydweithio er Mwyn Gofal Cancer Gwell, anfonwch e-bost at: BetterCancerCareTeam@macmillan.org.uk

Er mwyn sicrhau proses deg a thryloyw, nid ydym yn gallu rhoi cyngor ynghylch a yw mentrau unigol yn addas i gael eu hariannu drwy'r grant hwn.



Menter ddarluniadol

Mae pob ardal leol yn wahanol, ac nid ydym yn chwilio am un math o fenter. Mae'r fenter ffuglennol ganlynol yn cynnig darlun ymarferol o'r mathau o weithgareddau y mae'r grant hwn yn ceisio'u cefnogi.

Darlun: Hybiau Partneriaeth Cymunedol Canser

Partneriaeth draws-sector rhwng Rhwydweithiau Gofal Sylfaenol a thimau cymdogaeth, gwasanaethau cancer y GIG ac Arbenigwyr Nyrsys Canser, timau iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol i oedolion awdurdodau lleol, sefydliadau mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, sefydliadau angor cymunedol, grwpiau ffydd, gweithwyr cyswllt rhagnodi cymdeithasol, a phobl sydd â phrofiad bywyd o ganser a chyflyrau hirdymor.

Sefydliad cynnal: **Partneriaethau** gwasanaethau cancer y GIG: Rhwydweithiau Gofal Sylfaenol, sefydliadau mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, Timau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Awdurdodau Lleol

Cyllid grant: £500,000 **Cyllid gwerthuso:** £50,000 (10% ychwanegol o werth y grant) **Gweithio gyda'n gilydd:** 3 blynedd

Crynodeb o'r Prosiect:

- Sefydlu a phrofi hybiau partneriaeth sy'n seiliedig ar gymdogaethau, gan ddod â phartneriaid iechyd, awdurdodau lleol a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol ynghyd i ddarparu cefnogaeth gyfannol i bobl yr effeithir arnynt gan ganser a chyflyrau hirdymor.
- Bydd hybiau'n gweithredu fel pwyntiau mynediad lleol dibynadwy, gan helpu unigolion i lywio cymorth ymarferol, emosiynol, ariannol a lles o fewn eu cymunedau.
- Canolbwyntio ar gefnogi pobl mewn cymunedau gwledig a difreintiedig a gwella mynediad i grwpiau a allai wynebu rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau traddodiadol, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu.

Cyd-ddylunio ac ymgorffori profiad bywyd:

- Bydd ymgorffori profiad bywyd ehangach yn rhan o'r prosiect hwn.
- Bydd pobl sydd â phrofiad bywyd yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses felartneriaid cyfartal yn y broses ddylunio, cyflwyno a gwerthuso i helpu llunio lleoliadau canolfannau, cynigion gwasanaeth, cyfathrebu, llwybrau atgyfeirio a dulliau o leihau rhwystrau i fynediad, gan gynnwys trafndiaeth, allgáu digidol, iaith, hyder a stigma.
- Byddartneriaid profiad bywyd hefyd yn cymryd rhan mewn sesiynau myfyrio a dysgu.

Darlun: Hybiau Partneriaeth Cymunedol Canser

Dull Monitro a Dysgu

- Bydd y gwerthusiad yn cael ei gynllunio'n annibynnol.
- Gallai gweithgareddau gwerthuso gynnwys monitro gweithgareddau, adborth gan gyfranogwyr, astudiaethau achos, sesiynau myfyrio gan bartneriaid, mapio partneriaethau, mapio effeithiau tonnog a logiau dysgu parhaus.
- Bydd adroddiadau dysgu a gwerthuso dros dro yn cael eu cynhyrchu i nodi canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, tynnu sylw at beth sy'n gweithio'n dda, nodi meysydd i'w gwella, a llywio datblygiad iterus.
- Bydd adroddiad dysgu terfynol yn syntheseiddio canfyddiadau o'r cyfnodau dylunio, profi a gweithredu, gan ymgorffori safbwyntiau gan bobl â phrofiad bywyd a'r gweithlu proffesiynol.

Manteision disgwylidig:

- Mynediad gwell at gefnogaeth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser
- Partneriaethau cryfach rhwng gwasanaethau cancer, gofal sylfaenol, awdurdodau lleol a sefydliadau mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol.
- Integreiddio gwell rhwng cymorth cancer, rheoli cyflyrau hirdymor a gwasanaethau lles ehangach.
- Llai o amrywio mewn mynediad at gymorth cymunedol ar draws cymdogaethau.

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy

- Mynediad a chyrhaeddiad cyfartal ar draws gwahanol gymunedau a grwpiau poblogaeth.
- Mesurau profiad defnyddwyr, gan gynnwys arolygon, adborth ac astudiaethau achos. Integreiddio â gwasanaethau iechyd, lles a dhymunedol ehangach.
- Dysgu ynghylch y lleoliadau, y dulliau cyflwyno, y partneriaethau a'r dulliau ymgysylltu mwyaf effeithiol.

Yn barod i wneud cais?

Mae Mynegi Diddordeb yn
agor ar 7 Medi 2026

Cyn i
chi

Darllenwch y Pecyn Gwybodaeth hwn

wneud
cais:

Gwiriwch a yw eich sefydliad a'ch
partneriaeth yn gymwys

Paratowch eich atebion

Cyflwynwch eich datganiad o
ddiddordeb erbyn **20 Medi 2026**
